Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

**Llangynwyd**
**Maesteg**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF34 9RW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 683 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 565 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 118 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.2%) | 15.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 17.8%) | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 30.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2016 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/03/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Crynodeb

Mae gan y pennaeth ac arweinwyr eraill ddisgwyliadau uchel iawn o'r staff a'r disgyblion. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol yn gyson ac yn arwain â sensitifrwydd. Mae yno naws deuluol Gymreig ac ethos cryf o weithio fel tîm sydd yn treiddio'r holl ysgol. Mae cysondeb uchel yn y modd mae staff yn cyflawni eu dyletswyddau sydd yn sicrhau bod cefnogaeth gref ar gael i ddisgyblion fel y gallant gyflawni eu potensial.

Mae ansawdd yr addysgu'n gyson uchel ar draws yr ysgol a cheir perthnasoedd gwaith agos a chynhaliol rhwng y disgyblion a'r athrawon. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae staff yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol sy'n cynnig her briodol uchel i ddisgyblion. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn rhoi adborth clir iddynt ar sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau.

Mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o gyrsiau yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn cynnwys rhai cyrsiau galwedigaethol. Ceir ystod eang iawn o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chorfforol.

Mae'r staff bugeiliol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn cydweithio'n gadarnhaol â'r disgyblion a cheir perthynas agos a chynhaliol rhwng staff a rhieni. Ceir llu o gyfleoedd allgyrsiol i alluogi'r disgyblion i ddilyn eu diddordebau a datblygu fel dinasyddion gwybodus. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn wirioneddol mwynhau dod i'r ysgol ac mae lefelau presenoldeb yn nodedig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae gan y staff yn yr adran anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a 'Tŷ Derwen' ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni'n academaidd ac yn gymdeithasol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn teilwra eu darpariaeth yn ofalus i sicrhau eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae gan yr arweinwyr ddarlun cynhwysfawr o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Maent yn uchelgeisiol ac yn cynllunio'n ofalus ar gyfer gwelliannau. Mae cysylltiad cryf rhwng y gweithgareddau dysgu proffesiynol cynigir i staff â blaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad i arweinyddiaeth ysbrydoledig, mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn cynnig awyrgylch cadarnhaol iawn i ddisgyblion ffynu'n academaidd ac i ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn.

## Argymhellion

A1 Dylai'r ysgol barhau â'i chynlluniau gwella. Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn deillio o'r arolygiad hwn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â'r:

- Ffordd mae'r ysgol yn ysgogi ymdeimlad o berthyn i'r ysgol a sut mae hyn yn dylanwadu ar y lefelau uchel o les a phresenoldeb
- Cynllunio ar gyfer gwelliant i sicrhau'r profiadau dysgu gorau ar gyfer y disgyblion

i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dealltwriaeth bynciol a'u medrau. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn gywir ac yn ei gymhwyso i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol. Mewn ychydig o achosion, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o ganlyniad i lefel o her uchel iawn a chefnogaeth gref gan eu hathrawon. Mae ychydig o ddisgyblion yn straffaglu i adalw cysyniadau pynciol ac yn gwneud cynnydd araf yn eu medrau.

Mae disgyblion sy'n mynychu uned arbenigol Tŷ Derwen yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau personol a chymdeithasol dros amser. Maent yn datblygu hyder a dycnwch cynyddol sy'n eu galluogi i ymdopi'n dda mewn gwersi prif lif ac i feithrin a chynnal perthnasoedd gwerthfawr gyda chyfoedion a staff. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu dysgu ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau cyfathrebu llafar da yn y Gymraeg a Saesneg. Mae ganddynt eirfa gyffredinol eang ac maent yn datblygu'u hymwybyddiaeth o dermau pwnc-penodol a sut i'w chymhwyso'n effeithiol. Wrth drafod mewn grwpiau neu barau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eu cymheiriaid ac yn ymateb mewn modd adeiladol ac aeddfed. Mae ychydig o ddisgyblion yn meddu ar eirfa soffistigedig ac yn cyfathrebu'n huawdl yn y ddwy iaith. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn hyderus wrth gyflwyno eu hymatebion ar lafar yn y Gymraeg. Maent yn dueddol o ddefnyddio gormod o eiriau Saesneg a chystrawennau gwallus.

Pan gânt y cyfle, mae llawer o'r disgyblion yn darllen ar goedd yn fedrus gan amrywio mynegiant a goslef. Mae ychydig yn straffaglu wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd ac maent yn dueddol o ddarllen ar goedd mewn modd undonog. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ddefnyddio'u medrau darllen i gywain gwybodaeth berthnasol o destunau. Maen nhw'n arddangos dealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei ddarllen ac mae llawer yn trafod y syniadau sy'n deillio o'r testunau'n synhwyrol, er enghraifft wrth ystyried rôl menywod yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn eu gwersi dyniaethau. Mae llawer yn medru syntheseiddio gwybodaeth o ystod o destunau yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r disgyblion yn mynegi eu syniadau'n glir wrth ysgrifennu'n estynedig mewn llawer o bynciau. Ym mwyafrif yr achosion, mae'r disgyblion yn ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg heb lawer o gamgymeriadau gramadegol neu wallau sillafu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau creadigol yn dda wrth ysgrifennu, er enghraifft wrth greu ymson yn seiliedig ar nofel 'Llyfr Glas Nebo'. Ar brydiau, mae lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio cystrawen Seisnig wrth ysgrifennu yn Gymraeg. Yn aml, mae ysgrifennu'r disgyblion hyn yn cynnwys ychydig o wallau sillafu a threiglo.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o gysyniadau rhif. Maent yn gallu cyfrifo'n hyderus gyda rhifau negatif, degolion, ffracsiynau a rhifau sydd yn y ffurf safonol. Maen nhw'n adeiladu a phlotio graffiau llinell yn gywir gan ychwanegu llinellau ffit gorau dilys. Pan fydd yn addas, maent yn creu graffiau mewn pynciau

eraill gan arddangos medrau dehongli soffistigedig. Er enghraifft, maent yn dadansoddi graffiau symudedd cymhleth yn eu gwersi gywddoniaeth yn fedrus. Mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso fformiwlâu er mwyn darganfod meintiau penodol megis buanedd neu ddwysedd yn llwyddiannus. Maent hefyd yn datblygu'u gallu i aildrefnu fformiwlâu ac yn cymhwyso'r medr hwn mewn amryw gyd-destun ar draws y cwricwlwm yn fedrus.

Ar y cyfan, mae'r disgyblion yn datblygu'u medrau corfforol yn ogystal â'u ffitrwydd yn dda yn eu gwersi iechyd a lles. Maent hefyd yn datblygu'u medrau modur mân yn eu gwersi technoleg, celf a gwyddoniaeth wrth ymdrin ag ystod o gyfarpar ac offerynnau. Maent yn datblygu eu creadigrwydd yn dda mewn sawl pwnc, er enghraifft drwy greu portreadau mynegiannol dychmygol yn eu gwersi celf.

Mewn llawer o achosion, mae'r disgyblion yn datblygu'u medrau meddwl yn dda, er enghraifft wrth ystyried cysylltiadau rhwng gwahanol gysyniadau mathemategol. Yn eu gwersi iaith fodern, maen nhw'n dadansoddi a dehongli geirfa drwy ystyried geiriau cytras.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn aeddfed a chydwybodol. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau meddwl soffistigedig wrth ymwneud â thestunau cymhleth, er enghraifft wrth astudio sut mae magnetau'n anwytho cerrynt yn eu gwersi ffiseg. Maent yn cyfathrebu'n huawdl ac yn gwneud cysylltiadau craff rhwng gwahanol gysyniadau pynciol. Mewn ychydig iawn o achosion, nid oes gan ddisgyblion afael digon cadarn ar gysyniadau sylfaenol ac nid ydynt yn datblygu eu dealltwriaeth bynciol yn ddigon da.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o deulu'r ysgol, sef 'Tîm Llan', ac yn elwa o'i chymuned ddiogel, ofalgar, glòs a chynhwysol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg, ac yn eu tro, maent yn arddangos lefel uchel o ymddiriedaeth a pharch at yr ysgol, eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag cam-driniaeth gorfforol a geiriol. Maent yn gwybod pwy i droi atynt pan fydd rhywbeth yn eu poeni. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn hapus yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd unrhyw faterion yn ymwneud â bwlio yn cael eu trin yn gyflym, yn effeithiol ac yn sensitif.  Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd ar gael gan benaethiaid blwyddyn, cwnselwyr a'r staff cefnogol yng nghanolfannau Llannerch a Ty Derwen.

Mae'r modd y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddel egwyddorion a nodweddion 'Dysgwyr Llan' (sef llwyddianus, arweiniol a nerthol) yn gryfder. Yn y gwersi, maent yn meithrin y feddylfryd o fod yn unigolion llwyddiannus gan arddangos dycnwch wrth ddatrys problemau. Maent yn datblygu i fod yn unigolion uchelgeisiol ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae'r mwyafrif yn ymateb yn gadarnhaol i adborth eu hathrawon er mwyn gwneud cynnydd pellach. Mae bron pob disgybl yn brydlon i wersi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn deall a gwerthfawrogi pwysigrwydd rheolau, gwobrau a chamau cywiro. Yn gyffredinol, mae gan y disgyblion ymagweddau iach tuag at y Gymraeg ac maent yn ei defnyddio'n ddi-gymell mewn sgyrsiau â'i gilydd. Mae hyn yn nodwedd gref. Mae'r nodweddion hyn yn cyfrannu'n sylweddol at fwynhâd disgyblion o ddod i'r ysgol. O

ganlyniad, mae canran presenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim, yn nodweddiadol uwch na’r gyfradd genedlaethol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’u medrau arwain wrth drafod materion cyfoes, hawliau a chyfrifoldebau yn ystod y sesiynau tiwtor, ‘Codi Llais’. Maent yn datblygu’n ddinasyddion gwybodus a moesegol, er enghraifft drwy drefnu gweithgareddau i godi arian at ystod o elusennau. Mae’r rhan fwyaf yn dysgu sut i wneud dewisiadau doeth er mwyn cadw eu hunain yn iach. Mae disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gwerthfawrogi’r cyfle i ddewis gweithgareddau penodol yn y gwersi addysg gorfforol gorfodol. O ganlyniad, maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gwersi hyn. Mae’r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn datblygu medrau bywyd gwerthfawr trwy weithgareddau amgen, er enghraifft ‘Taith y Gweilch’. Mae’r gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin eu hunanhyder a’u hunan- barch.

Mae’r disgyblion yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i fynegi eu barn trwy fforymau blwyddyn a Senedd yr Ysgol. Trwy weithgareddau llais y disgybl, megis holiaduron pynciol, maent wedi rhoi adborth ar, a chyfrannu at, newidiadau i unedau o waith. Trwy lais y disgybl, aeth yr ysgol ati i greu’r pwyllgor elusennau a’r pwyllgor cydraddoldeb.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn llysgenhadon clodwiw i’r ysgol. Maent yn gyfeillgar ac yn siarad yn aeddfed, parchus a hyderus gydag ymwelwyr, staff a disgyblion o bob oedran. Mae eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn werthfawr ac mae llawer yn ymgymryd â rolau arweiniol. Maent yn cadeirio a llywio Senedd yr Ysgol ac yn gyfrifol am sefydlu ac arwain clybiau megis ‘Read with Pride’, sef clwb darllen llenyddiaeth LGHDT+. Disgyblion y chweched sy’n llwyr gyfrifol am glybiau Gwers 6 ar ddydd Gwener pob wythnos pan fydd holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 yn mynychu clwb o’u dewis. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau arweinyddol a threfniadol gwerthfawr.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn oherwydd bod cysondeb yn y nodweddion effeithiol a welir ar draws yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu gwybodaeth a’u medrau.

Mae gan bron pob athro wybodaeth bynciol gadarn ac adnabyddiaeth dda iawn o’u disgyblion. Mewn ychydig o wersi, lle mae’r addysgu ar ei orau ac yn effeithiol iawn, mae athrawon yn arddel perthynas waith hynod gynhyrchiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o ymgysylltiad, ymdrech a chyrhaeddiad y disgyblion. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar sy’n gwneud i ddisgyblion feddwl yn ddwys a gwneud datblygiad hyfedr yn eu dealltwriaeth. O ganlyniad i’r nodweddion cryf hyn, mae disgyblion yn talu sylw’n barhaus, yn cyfrannu’n dda ar lafar ac yn gwneud cynnydd buan a chadarn iawn.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon reolaeth ddosbarth gadarnhaol ac effeithiol. Maent yn meithrin perthynas waith cynhyrchiol a chefnogol gyda’r disgyblion ac yn llwyddo i gynnal awyrgylch waith bwrpasol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio’n llwyddiannus i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu medrau a’u gwybodaeth bynciol. Maent yn fodelau iaith dylanwadol sy’n hyrwyddo defnydd cyson o'r Gymraeg, geirfa pwnc ac iaith raenus. Maent yn darparu adnoddau pwrpasol sy’n cefnogi’r dysgu a’r addysgu ac yn gwneud defnydd effeithiol o gynorthwywyr dosbarth, pan fo angen.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn egluro a chyfarwyddo’n glir wrth roi esboniadau am gysyniadau. Maent yn sicrhau lefel her briodol i dasgau ac yn annog disgyblion i weithio’n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn holi disgyblion yn gyson i wirio eu dealltwriaeth, i gynnal eu diddordeb yn y gwaith ac i sicrhau eu bod yn symud ymlaen yn eu dysgu. O ganlyniad i’r rhinweddau hyn, mae’r gyfradd ddysgu yn sionc a chadarn mewn llawer o wersi.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn datblygu cyfleoedd i ddisgyblion roi atebion estynedig, esboniadau pellach neu feddwl yn ddyfnach am gysyniadau. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi sylwadau buddiol ar waith ysgrifenedig disgyblion ac, yn gyffredinol, mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd pellach mewn gwaith dilynol. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ar waith disgyblion yn amrywiol o fewn ac ar draws adrannau ac nid oes disgwyliadau cyson o sut dylai disgyblion ymateb i sylwadau gan athrawon.

Mewn ychydig o achosion, mae diffygion yng nghynllunio athrawon yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent. Mae’r rhain yn cynnwys diffyg amrywiaeth mewn tasgau, neu dasgau heb ddigon o her ynddynt. Yn aml yn yr achosion hyn, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar a medrau dysgu annibynnol ymhellach oherwydd bod yr athro yn siarad gormod neu’n rheoli gormod ar y dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw’r athrawon yn holi disgyblion yn ddigon aml neu’n ddigon treiddgar ac nid yw eu disgwyliadau o’r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel.

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang gan sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion ar hyd yr ystod gallu. Mae’r staff yn cynllunio’r profiadau hyn yn fedrus i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion ac yn sicrhau bod y tasgau’n adeiladu’n systematig ar ei gilydd. Mae’r ysgol yn cynllunio’n ofalus ar gyfer cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion trwy flaenoriaethu ansawdd yr addysgu yn y gwersi. Mae’r staff yn cydweithio’n fuddiol â staff ysgolion cynradd partner i sicrhau dilyniant i ddisgyblion.

Gall disgyblion yng Ngghyfnod Allweddol 4 ddewis o ystod eang o gyrsiau, gan gynnwys rhai galwedigaethol fel adeiladwaith. Mae’r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth ag ysgol uwchradd arall er mwyn cynyddu’r dewis o bynciau i ddisgyblion y chweched dosbarth.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n strategol ar gyfer datblygiad medrau’r disgyblion. Mae’r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn nodwedd eithriadol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae cydweithio i gysoni’r ddarpariaeth rhifedd wedi arwain at strategaeth effeithiol wrth ddefnyddio ac aildrefnu fformiwlâu ac mae disgyblion yn ei ddefnyddio’n llwyddiannus yn eu gwaith. Mae’r staff yn cynllunio’n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Er enghraifft, mae strategaethau datblygu llafaredd fel rhan o raglen ‘Llais Llan’ yn dylanwadu’n gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu disgyblion. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn llawer o bynciau. Ceir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw brwd i ddatblygu’r ymdeimlad o Gymreictod a hunaniaeth Gymreig ymysg eu disgyblion mewn modd cadarnhaol a chynhwysol. Mae’r ysgol yn gosod dyheadau uchel ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn y Gymraeg. Mae gan yr ysgol strategaethau defnyddiol i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion a rhieni o dermau pynciol Cymraeg. Mae’r gweithgareddau yn ystod ‘y wers clwb’ yn cynnig

cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau naturiol ac anffurfiol.

Mae cynllunio strategol yr ysgol ar gyfer datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn, er enghraifft y diwrnodau her, y dystysgrif her sgiliau a'r rhaglen codi llais yn ystod y cyfnodau tiwtor. Trwy'r rhain, mae'r ysgol yn cynnal rhaglen gynhwysfawr i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i fyw'n  iach a diogel, a sut i ofalu am eu lles eu hunain ac eraill. Lle'n briodol, mae pynciau'n cynllunio'n ofalus i ddatblygu empathi a dealltwriaeth disgyblion o hawliau a chydraddoldeb. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn astudio caethwasiaeth hanesyddol a modern yn eu gwersi dyniaethau ac yn herio gwahaniaethu ar sail rhyw yn eu gwersi Saesneg.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau allgyrsiol, gan sicrhau mynediad teg i bob disgybl trwy drefnu bysiau ychwanegol adref wedi diwedd y diwrnod ysgol. Mae'r ysgol yn atgyfnerthu'r cwricwlwm drwy drefnu ymweliadau addysgol fel taith i 'Fferm yr ynys', sef gwersyll carcharorion rhyfel a welodd y ddihangfa fwyaf ar dir Prydain.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd  yn gymuned hynod o ofalgar, cynhwysol a theuluol. Mae'r holl staff yn hybu a hyrwyddo'r disgyblion I ddatblygu i arddel ymagweddau cadarnhaol. Er enghraifft, yn ystod 'wythnos C'lod', mae'r tîm cynhwysiant a lles yn cydnabod a dathlu llwyddiannau disgyblion unigol trwy wobrwyo'n bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys gwobr 'Dysgwr Llan', 'Pencampwr Llan', 'Cymro Llan' a 'Gwobr y Prifathro'.

Mae'r staff wedi datblygu system lwyddiannus i olrhain a gwella presenoldeb yn dilyn yr heriau wedi'r pandemig. Mae cydweithio cyson â swyddog addysg a lles y sir yn ogystal â phenodiad diweddar y swyddog cyswllt teulu yn sicrhau ymateb buan i absenoldebau. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau uchel o bresenoldeb o'u cymharu â'r darlun cenedlaethol.

Mae Llannerch yn hafan i ddisgyblion. Mae'r ofal a chefnogaeth gan y staff yno yn ffordd hylaw o fagu perthynas gref â'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ysgol wedi darparu llu o ymyraethau i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mae hyn yn ysgogi disgyblion i feithrin agweddau mwy cadarnhaol tuag at eu gwaith a cheisio cael y gorau o fywyd ysgol.

Mae'r tîm cynhwysiant a lles yn cydweithio'n agos ag amryfal asiantaethau allanol fel y gwasanaethau plant, y nyrs a chwnselydd, fel y bo angen. Mae ymweliadau gan yr heddlu er mwyn cynnal sgyrsiau am faterion lleol a chyfredol yn atgyfnerthu'r gefnogaeth bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy drefniadau pontio cryf. Mae staff o'r tîm cynhwysiant a lles yn creu cyswllt cynnar â'r teuluoedd sydd yn sail gadarn i ddechrau'r daith yn yr ysgol gyfun.

Mae disgyblion sydd wedi'u heffeithio gan anfantais gymdeithasol-economaidd yn elwa ar gymorth ymarferol, er enghraifft cyfle i gael talebau gwisg ysgol neu becyn addysg sy'n cynnwys offer a geiriadur. Mae Senedd yr ysgol yn cwrdd yn gyson er

mwyn trafod sut i wella’r ysgol a chynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn bwrpasol. Gwneir hyn trwy wasanaethau a sesiynau ‘Codi Llais’ sydd hefyd yn fodd i hybu medrau llafar trwy drafod themâu cyfredol, er mwyn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o’r byd o’u cwmpas. Mae’r diwrnodau her penodedig yn delio â materion cyfoes wedi’u teilwra ar gyfer bob blwyddyn unigol. Caiff y disgyblion gyfle buddiol i fyfyrio a thrafod eu teimladau trwy sesiynau wythnosol ‘Lles Llun’.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn cynnwys cynllunio manwl a gofalus cyn i ddisgyblion drosglwyddo i’r ysgol o’u hysgolion partner cynradd. Ceir trefniadau cadarn i gasglu gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn y prif lif a’r rhai sy’n derbyn cymorth ychwanegol. Yn ogystal, mae systemau effeithiol i adnabod anawsterau dysgu wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol. Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o ymyraethau buddiol i gefnogi disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Yn ogystal, cynigir sesiynau gwerthfawr i gefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

O dan arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol y cydlynydd ADY (CADY) a’r dirprwy CADY, mae tîm o athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio’n llwyddiannus i gefnogi datblygiad a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys rhoi arweiniad gwerthfawr i athrawon i sicrhau eu bod yn cynllunio tasgau addas ar gyfer disgyblion penodol a’u cefnogi i wneud cynnydd. Nodwedd arbennig yw disgwyliadau uchel y tîm fod disgyblion ag ADY yn llwyddo’n academaidd ac yn gymdeithasol fel eu bod yn barod ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd.

Mae’r ddarpariaeth yn yr uned arbenigol, ‘Tŷ Derwen’, yn bwrpasol ac effeithiol. Mae staff yr uned yn cynnig cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. O ganlyniad i gynhaliaeth ac anogaeth berthnasol, mae’r disgyblion hyn yn mwynhau a llwyddo mewn amrywiaeth sylweddol o brofiadau dysgu ac i chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu ar draws holl gymuned yr ysgol. Mae’r pennaeth, staff a’r llywodraethwyr yn arddel ethos o barch ac ymddygiad gwâr gan osod pwyslais amlwg ar feithrin perthnasoedd agos a chynhaliol â disgyblion a’u teuluoedd. Trefnir hyfforddiant priodol a chyson i staff a llywodraethwyr ar brosesau amddiffyn plant, diogelu a materion pwysig eraill. O ganlyniad, mae dealltwriaeth staff o’u cyfrifoldebau a sut i ymateb i unrhyw bryder am ddiogelwch disgyblion yn gadarn. Mae arweinwyr perthnasol yn cydweithio’n wybodus ag asiantaethau allanol statudol ac mae hyn yn sicrhau ymateb buan a phriodol i gefnogi disgyblion bregus neu rai sy’n agored i niwed. Maent hefyd yn cydweithio’n synhwyrol â rhieni i gefnogi llesiant eu plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r pennaeth yn arweinydd ysbrydoledig a diymhongar sydd yn uchel iawn ei barch ymysg staff a chymuned yr ysgol. Mae’n arwain pobl yn fedrus i fod ar eu gorau a gwna hyn yn ystyriol a chydag empathi. Gyda’i gilydd, mae gan y pennaeth ac uwch arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir sydd wedi’i gwreiddio mewn ethos o gydweithio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rhag llwyddiant. Cyfathrebant y

weledigaeth mewn modd huawdl iawn ac maent yn llwyddo i argyhoeddi staff trwy fod yn fodelau rôl arbennig.

Mae disgwyliadau uwch arweinwyr o'r holl ddisgyblion a staff yn uchel. Maent yn arddel gwerthoedd a disgwyliadau proffesiynol ymhob agwedd o'u gwaith. Mae eu cyfrifoldebau allweddol wedi'u dyrannu'n briodol a synhwyrol. Trwy gydweithio gofalus, maent yn gweithredu'n strategol ac yn blaenoriaethu gwella profiadau disgyblion a chynnal lefelau uchel o gynnydd. Mae uwch arweinwyr yn llwyddo i feithrin tîm sydd â meddylfryd iach o hunanwella parhaus gyda ffocws clir ar addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae'r staff a'r disgyblion yn falch o fod yn aelodau o gymuned 'Tîm Llan'.

Mae gan arweinwyr canol ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yr ysgol. Mae gweithdrefnau atebolrwydd yr ysgol yn glir. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, mae rheolwyr llinell yn dwyn arweinwyr canol yn atebol am eu gwaith yn effeithiol ac yn herio a chefnogi yn gytbwys. Golyga hyn fod trafodaethau'n rhoi ffocws cadarn ar gynnydd disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r modd mae arweinwyr yn arfarnu effaith eu gwaith a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gryfder nodedig. Maent yn casglu amrywiaeth eang o wybodaeth er mwyn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau o ddata mewnol ac allanol, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion, a chyrchu barn rhieni a disgyblion. Maent yn defnyddio'r holl wybodaeth hon yn fedrus er mwyn mesur effaith y ddarpariaeth ar les a chynnydd disgyblion. Golyga hyn fod gan y rhan fwyaf o arweinwyr ddealltwriaeth fanwl a chadarn o'r cryfderau o fewn y ddarpariaeth, a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac maent yn blaenoriaethu'n ddoeth wrth gynllunio gwelliant. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at ansawdd addysgu cyson uchel, cynnydd yn y lefelau presenoldeb ac agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn fwriadus. Un nodwedd gref o hyn yw'r ffordd mae holl staff yr ysgol yn ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a hyrwyddo Cymreictod bob dydd. Mae staff ar bob lefel yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob disgybl yn cael yr un cyfleoedd, beth bynnag fo'u cefndir.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o weithgareddau dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl staff. Mae yna gyswllt agos rhwng y rhaglen hon, y trefniadau rheoli perfformiad a phrosesau gwella'r ysgol. Mae system rheoli perfformiad staff, sef y 'Cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus', yn drylwyr a threfnus. Mae'r amcanion yn glir, yn cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae yna gyfleoedd defnyddiol i staff ar bob lefel arbrofi â strategaethau newydd ar sail gwaith ymchwil. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddathlu a rhannu eu canfyddiadau, a'r arferion gorau sydd wedi eu hadnabod o weithgareddau hunanwerthuso. Yn ogystal, mae'r rhaglen wedi ei theilwra'n ofalus i ymateb i flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigol staff. Mae'r ysgol wedi llwyddo i greu diwylliant lle mae staff yn awyddus i dderbyn adborth ar eu gwaith, a theimla staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu yn eu rolau. Mae'r rhaglen dysgu proffesiynol wedi cael effaith nodedig ar ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth lles a medrau arwain staff.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r gyllideb yn ofalus. Defnyddiant unrhyw grantiau ychwanegol, fel y grant datblygu disgyblion, yn

briodol er mwyn cefnogi disgyblion, sicrhau cyfleoedd teg a gwella ansawdd eu profiadau addysgol a chymdeithasol.

Mae’r corff llywodraethol yn cynnig cefnogaeth gref i holl waith yr ysgol. Dan arweiniad cadarn y cadeirydd a’r is-gadeirydd, mae’r corff llywodraethol yn wybodus iawn am gryfderau a meysydd gwella’r ysgol. Mae ganddynt afael da ar y prif flaenoriaethau ac maent yn chwarae rhan allweddol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Drwyddi draw, maent yn gweithredu’n effeithiol yn eu rôl fel cyfaill beirniadol gan herio uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ar faterion pwysig pan fydd yn briodol. Maent yn gweithredu eu rôl statudol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol.

Mae gan staff yr ysgol gyd-berthynas arbennig â’r rhieni a’r gymuned ehangach. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol drwy rannu gwybodaeth allweddol yn amserol a dathlu llwyddiannau disgyblion. Rhoddir cyfleoedd buddiol I ddisgyblion a rhieni fynegi eu barn ar wahanol agweddau ac mae arweinwyr yn gwneud penderfyniadau allweddol ar sail unrhyw ganfyddiadau. Mae’r ysgol yn arwain ac yn cyfrannu'n effeithiol mewn nifer o bartneriaethau strategol gydag ysgolion a phartneriaid eraill er mwyn gwella’r gofal a’r profiadau i ddisgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 05/06/2023